

Cyfarfod y Bwrdd - Llais Cymru

Dydd Mercher 23 Ebrill 2025

**Lleoliad: Parc Busnes Rhydycar, Merthyr Tudful
CF48 1DL**

Cyfarfod Zoom

Aelodau:

Medwin Hughes
Grace Quantock
Alyson Thomas
Bamidele Adenipekun
Jack Evershed
Karen Lewis
Rajan Madhok
Mwoyo Makuto

Cadeirydd
Dirprwy Gadeirydd
Prif Weithredwr
Anweithredol
Anweithredol
Anweithredol
Anweithredol
Aelod cyswllt

Mynychwyr:

Richard Bevan
Kirsty Contreras-Stacey
Ben Eaton

Charysse Harper

Angela Mutlow
Daniel Price
Claire Taylor

Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd
Swyddog Llywodraethu
Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth
Sefydliadol ac Ymgysylltu
Pennaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth,
Cynhwysiant a Llesiant
Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Cwm Taf
Morgannwg
Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol, Cwm
Taf Morgannwg

Ymddiheuriadau:

Jason Smith Anweithredol
Joanne Bolton Cyfarwyddwr Strategol
Gweithrediadau a Gwasanaethau
Corfforaethol

Croeso, cyflwyniadau

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys pawb a ymunodd â'r cyfarfod ar-lein.
- 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jason Smith, Cyfarwyddwr Anweithredol a Joanne Bolton, Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol.

Datganiadau o Ddiddordeb

- 2.0 Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb mewn perthynas â'r eitemau ar yr agenda.

Gwerthfawrogi straeon pobl: enghreifftiau o sut y gall profiad unigolyn helpu i newid er gwell – Mynediad at wasanaethau meddyg teulu

- 3.0 Rhoddodd Cyfarwyddwr Rhanbarthol Gorllewin Cymru gyflwyniad gyda straeon am brofiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarparwyd yn ystod eu hymwelïad â chegin i bobl ddigartref ym mis Gorffennaf 2024.
- 3.1 Un stori yn benodol oedd stori am ddyn a oedd yn cael trafferth gyda'i leferydd ac o ganlyniad roedd ganddo rwystrau wrth geisio cael ei glywed. Roedd y dyn yn eistedd ar ei ben ei hun gyda'i gi, a ddisgrifiodd yn ddiweddarach fel ei ffrind agosaf. Eisteddodd staff Llais gyda'r dyn am tua 30 munud.
- 3.2 Roedd ganddo 2 brif broblem mewn bywyd, y cyntaf oedd nad oedd pobl yn gallu ei ddeall a olygai nad oedd neb byth yn clywed yr hyn oedd ganddo i'w ddweud, a'r ail oedd nad oedd ganddo bob amser y modd i oresgyn ei broblemau cyfathrebu oherwydd diffyg arian. Esboniodd ei fod yn ei chael hi'n anodd iawn gwneud apwyntiadau gyda'r meddyg teulu.
- 3.3 Eglurodd ei fod yn aml yn wynebu arosiadau hir mewn ciw, ac nad oedd ganddo arian bob amser i wneud galwadau hir ar ei ffôn symudol. Pan fyddai yn llwyddo cael ateb, byddai'n ceisio egluro'r hyn yr oedd ei eisiau, yn aml i gael gwybod na ellid ei ddeall. Yn y gorffennol, dywedon nhw wrtho i ffonio'n ôl pan fyddai'n llai

cynhyrfus, yn sobr neu'n effro, neu y dylai gael rhywun arall i ffonio ar ei ran.

3.4 Terfynwyd galwadau hefyd wrth aros i gael ateb am dros 20 munud. Ni ddechreuodd ei weithiwr cymdeithasol tan yn hwyrach yn y bore ac felly ni allai drefnu apwyntiad drwy'r dull galw i mewn am 8yb, ac erbyn iddo allu trefnu apwyntiad ni fyddai unrhyw apwyntiadau ar gael.

3.5 Oherwydd ei sefyllfa byw, nid oedd bob amser yn derbyn llythyrau apwyntiad. Roedd hyn yn golygu ei fod wedi methu apwyntiadau. Pan gollwyd apwyntiadau, cafodd ei feirniadu am wastraffu adnoddau. Hefyd, roedd rhai apwyntiadau yn rhai arferol a dim ond 5 munud oeddent yn eu cymryd, a oedd yn golygu llawer o deithio, anghyfleustra a threuliau diangen.

Canlyniad

3.6 Yn dilyn y profiad hwn ac eraill a oedd wedi cael eu hamlygu i'r rhanbarth ynglŷn â chleientiaid â phroblemau lleferydd, gwnaed cynrychiolaeth i'r Bwrdd Iechyd.

3.7 Darparodd STAMMA (elusen sy'n canolbwyntio ar bobl â phroblemau lleferydd a chyfathrebu) hyfforddiant a sicrhau bod adnoddau ar gael i holl staff Llais.

3.8 Cydnabu'r bwrdd iechyd fwlc yn ei adnoddau dysgu, a sefydlodd grŵp tasg a gorffen i ddatblygu ei drefniadau dysgu ymhellach.

3.9 Myfyriodd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol nad oedd Llais o bosibl wedi newid profiadau uniongyrchol y gŵr bonheddig o ofal iechyd a chymdeithasol, ond roedd o'r farn nad oedd wedi cael ei anwybyddu a'i ddiswyddo. Roedd yn falch ei fod wedi cael ei gynnwys a bod ei broblemau wedi cael eu cymryd o ddifrif. Cafodd hyn ei adrodd yn ôl yn dilyn ymgysylltiad pellach y gŵr bonheddig â chysylltydd cymunedol.

3.10 Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchgarwch i'r holl staff a oedd yn gysylltiedig a'r gwahaniaeth a wnaed i'r bonheddwr hwn a hefyd yr effaith ystyrlon a'r dysgu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol o ganlyniad.

- 3.11 Adleisiodd nifer o aelodau'r bwrdd eu diolchgarwch ac awgrymodd y byddai'r effaith a wneir yn y maes hwn yn esiampl dda i'w rhannu ledled Cymru gyda byrddau a gwasanaethau iechyd eraill.
- 3.12 Cytunodd y Prif Weithredwr ag effaith gadarnhaol y stori hon a gofynnodd i Gyfarwyddwr Rhanbarthol Gorllewin Cymru rannu profiad y gŵr bonheddig hwn ar draws Llais, ac iddo gael ei godi gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru o ran hyfforddiant i staff GIG Cymru i gefnogi unigolion sydd â phroblemau lleferydd yn well.

Gweithred: DC i rannu'r stori hon ar draws Llais i annog rhanbarthau eraill i'w dwyn i sylw eu partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Sylw ar ein gweithgareddau: Mynediad at wasanaethau meddyg teulu

- 4.0 Parhaodd y Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu â chyflwyniad ar gael mynediad at wasanaethau meddygon teulu a chadarnhaodd fod diffyg apwyntiadau meddygon teulu yn achosi pryder i lawer o bobl yng Nghymru. Roedd 21 o ymweliadau â meddygfeydd teulu wedi digwydd ac ar y cyfan, roedd Llais wedi ymgysylltu â 40,000 o bobl yn bersonol, drwy e-bost ac ar draws sawl platfform cyfryngau cymdeithasol.
- 4.1 Roedd pryderon ynghylch gwasanaethau meddygon teulu yn amlwg iawn yn yr adborth a gawsom. Roedd bron i hanner y pryderon a godwyd gyda thîm eiriolaeth cwynion Llais yn ymwneud ag ymarfer cyffredinol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- 4.2 Codwyd amrywiol faterion megis y 'sgrambl' ar gyfer apwyntiadau am 8yb ac anhawster i lywio systemau. Materion eraill a godwyd oedd ynghylch diogelwch ac ansawdd lle mae practisau'n cau neu'n newid perchnogaeth heb ddealltwriaeth y gymuned. Roedd yna hefyd awydd am barhad gofal, triniaeth sy'n canolbwyntio ar y person, a gwasanaethau sy'n adlewyrchu anghenion pobl ac nid hwylustod sefydliadol.
- 4.3 Y themâu a gododd dro ar ôl tro oedd diffyg mynediad at apwyntiadau, rhwystrau i fynediad i bobl mewn sefyllfaoedd agored i niwed, allgau digidol, teithio i gael gofal, bylchau diwylliannol ac

ieithyddol. Unwaith y bydd apwyntiadau wedi'u trefnu, mae'r gofal a ddarperir yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

- 4.4 Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth a Chysylltiadau Sefydliadol fod Llais wedi rhannu'r hyn a glywsom am wasanaethau meddygon teulu drwy ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion gyda swyddfa Ysgrifennydd y Cabinet. Ym mis Mawrth 2025, cyflwynodd Llais dystiolaeth hefyd yn seiliedig ar yr hyn a glywsom i Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd i ddyfodol ymarfer cyffredinol.
- 4.5 Yn 2024, cymerodd Llais ran mewn dwy drafodaeth ford gron gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn a phartneriaid gan gynnwys Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu, Age Cymru, Llywodraeth Cymru, ADSS ac ymarferwyr meddygon teulu.
- 4.6 Mae Llais yn parhau i weithio gyda llunwyr polisi a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i lywio a dylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau meddygon teulu yn genedlaethol trwy grwpiau polisi fel y Bwrdd Rhaglen Gofal Sylfaenol, adolygu gweithgaredd fel yr hyn a gynlluniwyd ar gyfer safonau mynediad meddygon teulu Cymru, ac yn rhanbarthol trwy glystyrau gofal sylfaenol.
- 4.7 Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu y byddai Llais yn defnyddio'r hyn a glywsom i gwblhau datganiad safbwynt Llais ynghylch mynediad at wasanaethau meddygon teulu. Byddai sylwadau pellach yn cael eu gwneud, yn ôl yr angen, i Lywodraeth Cymru a sefydliadau'r GIG, a byddai eu hymatebion yn cael eu monitro. Cadarnhawyd y byddai Llais yn parhau i ddarparu cyfathrebiadau drwy hysbysiadau i'r wasg a chylchlythyrau.
- 4.8 Mynegodd y Prif Weithredwr ei diolchgarwch i bawb a oedd yn rhan o waith Llais ledled Cymru mewn perthynas â mynediad at wasanaethau meddygon teulu, a oedd yn faes allweddol o bryder i bobl Cymru ac yn elfen bwysig o raglenni gwaith cenedlaethol a rhanbarthol.

Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghwm Taf Morgannwg

- 5.0 Rhoddodd Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg gyflwyniad ar faterion iechyd a gofal cymdeithasol yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. Roedd y materion a gyflwynwyd yn ymwneud â chefnogi pobl ag anableddau dysgu i aros yn iach, problemau mynediad at feddygon teulu, diagnosis niwroddatblygiadol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, gwasanaethau dydd a chartrefi gofal.
- 5.1 Cadarnhawyd bod Llais wedi ymgysylltu â dros 2,500 o bobl yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. Rhannodd 1,048 o bobl eu profiadau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd Llais wedi cefnogi 217 o gleientiaid gyda gwasanaethau eiriolaeth ac roedd Llais wedi gwneud 30 o sylwadau i'r bwrdd iechyd ac awdurdodau lleol yn y rhanbarth.
- 5.2 O'r adborth a dderbyniwyd, roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi cadarnhau bod achosion wedi bod o fethu â gwneud diagnosis o ganser a bod pwysau ar wasanaethau strôc. Bu effaith sylweddol o ganlyniad i atgyweiriadau to ac anawsterau dychwelyd Ysbyty Tywysoges Cymru, gyda nifer o adroddiadau wedi'u cyhoeddi mewn perthynas â'r sefyllfa. Adroddwyd hefyd fod problemau wedi'u nodi gydag ymatebolrwydd y bwrdd iechyd i gwynion o fewn y safon o 30 diwrnod ar gyfer ymatebion a bod hyn wedi'i amlygu i'r bwrdd iechyd.
- 5.3 Roedd Llais wedi ymgysylltu â Grwpiau Pobl yn Gyntaf ac wedi cynnal gweithdai rhyngweithiol. Cadarnhaodd aelodau'r grŵp eu bod wedi profi ymddygiadau digymorth wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y rhanbarth. Cadarnhaodd aelodau'r grŵp eu dewisiadau ynghylch y ffyrdd yr hoffent gael eu cyfathrebu â nhw yn y dyfodol. Mae Llais wedi bod yn eu cefnogi i godi ymwybyddiaeth o'r materion hyn.
- 5.4 Drwy nifer o grwpiau gwaith partneriaeth (roedd Llais wedi bod yn gweithio gyda'r Hwb Cymorth Ymddygiad) cynhaliodd Llais arolwg a chyfres o ymgysylltiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein i glywed am brofiadau rhieni a phlant o gael mynediad at gymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a

Phobl Ifanc (CAMHS) a diagnosis Niwroddatblygiadol. Rhannodd 462 o rieni eu profiadau a phrofiadau eu plant ar restrau aros hir.

- 5.5 Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi cynyddu ei bresenoldeb yn ddiweddar yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, er mai dirprwyon oedd hyn yn aml yn hytrach na'r aelodau enwebedig eu hunain yn mynychu. O ganlyniad, roedd siâp y cyfarfodydd wedi pwysoli llawer mwy tuag at gynrychiolwyr awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn hytrach nag iechyd.
- 5.6 Cadarnhaodd Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol Cwm Taf Morgan ffocws eu rhanbarth ar gyfer 2025/26. Roedd hyn yn cynnwys rhaglen eang o weithgareddau gan gynnwys:
- Llais pobl leol yn Hirwaun/Porth/Sarn/Penydarren
 - fforymau sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl/iechyd menywod/ieuenctid/newid gwasanaeth CTM
 - digwyddiadau gofal cymdeithasol (anableddau dysgu, dementia a gofalwyr)
 - Uwchgynhadledd iechyd a gofal cymdeithasol
 - Cynyddu gweithgaredd allgymorth
 - ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori ar y Cynllun Gwasanaethau Clinigol Acíwt
 - digwyddiadau hyfforddi gwirfoddolwyr, a
 - pharhau i feithrin perthnasoedd ag awdurdodau lleol, partneriaid yn y trydydd sector ac aelodau lleol y Senedd.
- 5.6 Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchgarwch i Ddirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol Cwm Taf Morgan a'r Tîm am eu cefnogaeth a gwerthfawrogi'r gwaith y parhaodd y tîm i'w gyflawni. Adleisiwyd hyn gan aelodau eraill y Bwrdd.
- 5.7 Cododd y Cadeirydd nifer o bryderon ynghylch unioni pethau a'r rhesymeg pam nad oedd Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg wedi bod yn ymateb yn effeithiol o fewn yr amserlenni gofynnol. Hefyd, mynegwyd pryder ynghylch cynrychiolaeth ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cytunwyd y byddai Llais yn ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn adlewyrchu'r pryderon a drafodwyd yng nghyfarfod y bwrdd.

Gweithred: Llythyr i'w ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg i dynnu sylw at y pryderon a drafodwyd yn y Bwrdd. Prif Weithredwr i benderfynu ar y dull mwyaf priodol.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf: Dydd Mercher 22 Ionawr 2025 a 26 Mawrth 2025

- 6.0 Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion cyfarfodydd Ionawr a Mawrth 2025. Cadarnhawyd bod y ddau set o gofnodion yn gofnodion cywir.

Log gweithredu a thrafod unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion

- 7.0 Rhoddodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd ddiweddariad ar y log gweithredu, trafodwyd hyn a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Cytunwyd y byddai'r holl gamau gweithredu caeedig a gyflawnwyd yn cael eu trosglwyddo i'r tab camau gweithredu caeedig.

Cyfarfod cau a dyddiad y cyfarfod nesaf

- 8.0 Daeth y cyfarfod i ben gyda'r Cadeirydd yn diolch i bawb a oedd wedi bod yn rhan o baratoi'r papurau, y cyflwyniadau a'r cyfraniadau at gyfarfod y Bwrdd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:50yb